Cardiff People: Dr Arwyn Jones

Y Dr Arwyn Jones Ysgol Fferylliaeth Cymru

Adref, y gwir adref, yw Groesffordd ger Llanrwst yn Nyffryn Conwy. Ar ôl ysgol cefais fy anfon i Coventry i astudio Bywydeg. Yn ddiweddarach enillais radd M.Sc. mewn Biocemeg Clinigol o Brifysgol Leeds, cyn astudio am radd doethuriaeth mewn Crisialeg Proteinau o Goleg Birbeck ym Mhrifysgol Llundain. Ymgymrais â swyddi ôl-ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Lerpwl a Phrifysgol Harvard yn Boston ac o ganlyniad i gymrodoriaethau or Gyfundrefn Ewropeaidd ar Fywydeg Moleciwlar a Sefydlaid Alexander von Humboldt gweithiais yn Labordy Bywydeg Moleciwlar Ewropeaidd yn Heidelberg.

Yna cefais seibiant byr o wyddoniaeth labordy a chrwydro, a thrwy nawdd gan y BBC ymgymerais â chwrs Tystysgrif mewn Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Bangor. Yn 2001 cefais fy apwyntio fel Darlithydd mewn Bywydeg Molecwlar a Bywydeg y Gell yn Ysgol Fferylliaeth Cymru. Heddiw, rydw i'n Uwch Ddarlithydd yno. Mae fy ngwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall prosesau naturiol (llwybrau endosytig) a ddefnyddir gan gelloedd i gymryd deunydd i mewn i'w cyrff eu hunain. Ein gobaith yw i ddefnyddio trosgludwyr cyffuriau, a'r llwybrau yma, i gludo moddion i mewn i gelloedd yn y corf.

Profodd fy nghyfnod mewn newyddiaduraeth i fod yn gyfle gwych i ymrwymo gyda'r cyhoedd i drafod gwyddoniaeth mewn digwyddiadau cyhoeddus neu yn y newyddion. Trwy'r Eisteddfod Genedlaethol caf gyfle a'r anrhydedd i lwyfannu gwyddoniaeth i gynulleidfa fawr a gweld yn syth yr effaith a'r cynnwrf mae digwyddiad o'r fath yn ei gynhyrchu.

Beth ydych yn gwrando arno beth cyntaf yn y bore?

Radio Cymru sy'n fy neffro yn y bore, ac yn dibynnu ar fy lleoliad o fewn y tŷ, a pha ddydd o'r wythnos yw hi, mae'n gyfuniad o Radio Cymru, 3 a 4.

Pwy wnaeth eich ysbrydoli ar eich llwybr gyrfa?

Yn yr ysgol, er gwaethaf protestiadau mam, penderfynais ganolbwyntio ar y gwyddorau yn hytrach na Hanes, Cymraeg a Saesneg. Bywydeg oedd y ffefryn ac un rheswm am hyn oedd athro campus sef Mr Brummett.

Arwyn yn mwynhau peint o "Gwrw Go Iawn". Arwyn enjoying a glass of "Real Beer", brewed at a microbrewery he and friends have set up in North Wales.

Er ei fod yn aml yn bygwth fy nharo ar fy mhen gyda'i gopi 2kg o *Plant and Animal Biology* gan Vines and Rees, wnaeth e ddim, ond cefais fy heintu a'i angerdd am fywydeg, a gwyddoniaeth yn gyffredinol

Pa eiriau fyddai pobl yn eu defnyddio amdanoch, ran amlaf?

Dim syniad, ond hyd yn oed yng Nghymru, rydw i'n cael fy ngalw yn Arwyn, Aween, Awen ag Awin. Pan fydd geiriau drwg yn dod o'i gennau mae'n hawdd i mi gredu eu bod yn siarad am rywun arall.

Cyfarfod mwyaf cofiadwy gyda rhywun enwog?

Fe wnes i gysgu unwaith gyda'r cawr o wyddonydd, ac enillydd Gwobr Nobel, Max Perutz. Gadewch imi orffen. Yr oeddwn yn fyfyriwr PhD yn Llundain ac yn mynychu cyfarfod ar inswlin yn y Gymdeithas Frenhinol. Wrth fy ymyl roedd cadair gyda chlustog bersonol ac roedd hwn yn perthyn i Max Perutz. Dychwelodd yr arwr bach i'w sedd a chawsom sgwrs braf cyn i'r ddarlith nesaf ddechrau. Pum munud i mewn i'r ddarlith roedd yr hen Max yn cysgu'n drwm, ac y fuan wedyn, roeddwn innau hefyd.

Beth sy'n dy gythruddo di?

Pobl sy'n ysgrifennu a dweud "Conway" yn hytrach na "Conwy" a thafarndai sy'n honni eu bod yn gwerthu cwrw ond sy' mewn gwirionedd yn gwerthu pop diflas rhewllyd a adnabyddir fel lager. Mae'r ddau beth yma dwi'n grwgnach amdano wedi fy ysgogi i a thipyn o Gogs eraill ffurfio bragdy meicro yn Maenan Llanrwst. Mae Bragdy Nant Conwy Cyf. yn mynd o nerth i nerth, a nawr yn cynhyrchu pum math o gwrw a dros 1,750 peint yr wythnos.

Beth yw dy uchelgais cyfrinachol? (rhyngom ni'n dau!)

I redeg pibell o'r bragdy o dan yr A470 yr holl ffordd o Lanrwst i Gaerdydd. I dorri syched dylid gosod tap yn Llanfair-ym-Muallt.

Beth mae'r Brifysgol angen mwy ohono?

Dealltwriaeth fod Macs yn well na PCs.

Pa lyfr a gafodd ei ail-ddarllen gennyt yn blentyn?

Ers y dechrau dw i bron byth yn ail ddarllen llyfr. Eithriadau amlwg yw Un Nos Ola Leuad a rhai o nofelau byrion Steinbeck. Dydw i byth yn blino chwaith ar ddarllen cerddi gwych R.Williams Parry.

Pa un cwestiwn y dymuni di wybod yr ateb iddo?

Mae gen i ddau

1. A fuasai Llywelyn, fel y canodd Gerallt Lloyd Owen, yn wylo gwaed pe buasai'n ymweld â Chymru2010?

2. Mae Owain Glyndŵr hefyd wedi dychwelyd i Gymru ac yn sefyll gyda fi wrth y bar yn y Mochyn Du

Fase fo'n gofyn am gwrw go iawn yntai lager?

Dywed jôc wrthym

Bydd Cymru'n ennill Cwpan Rygbi'r Byd 2011.

Eich hoff olygfa yn yr holl fyd (neu'r bydysawd)?

Mae'n agos iawn rhwng (1) gweld grŵp o blant bach yn byrlymu siarad Cymraeg ar iard yr ysgol - mae hyn yn rhoi gobaith imi a (2) gweld arwydd 'Croeso i Lanrwst' sy'n fy atgoffa i fy mod i bron adref.

Pwy fyddai'n chwarae dy ran di mewn ffilm am dy fywyd?

Pan oeddwn yn byw yn America roeddwn yn rhentu ystafell yn Roxsbury, ardal dlawd ddifreintiedig yn Boston. Wrth gerdded yn ddiniwed yn ôl a 'mlaen o'r gwaith des i 'nabod rhai o blant y stryd, ac roeddynt yn fy ngalw'n Larry Bird. Dysgais yn sydyn iawn for Larry Bird yn arwr pêl-fasged yn y ddinas. Pedair blynedd yn ddiweddarach, yn Bergen , Norwy mewn clwb nos braidd yn amheus, daeth dyn ataf a dweud "Ti'n gwybod be, rwyt ti'n andros o debyg i Larry Bird". Felly Larry Bird amadani, er ei fod yn hyn na fi, gyda gên hirach na fy un i ac yn fawr o actiwr - perffaith i gynhyrchiad S4C.

The English version of this article can be found with the on-line Cardiff News at www.cardiff.ac.uk/news/newsletter/

Deaths

With regret the University records the death of:

Kate Hunter, former member of staff in the School of History and Archaeology, who died on 5 January 2010.